GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (TREWERN, POWYS) (TERFYNAU CYFLYMDER 40 MYA A 50 MYA) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfynau cyflymder 40 mya a 50 mya ar y darnau o gefnffordd yr A458 ("y gefnffordd") a bennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Trewern, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2001 (O.S. 2001/3242 (Cy. 271)) ("Gorchymyn 2001") a Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Tal-y-bont i Bont Cefn, Powys) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2017 (O.S. 2017/1126 (Cy. 283)) ("Gorchymyn 2017") yn cael eu dirymu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn addasu hyd a lled cymhwysiad y terfynau cyflymder 40 mya a 50 i'r darnau o'r gefnffordd yn rhinwedd Gorchmynion 2001 a 2017.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 18 Tachwedd 2022 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, y Plan a'r Gorchmynion sy'n cael eu dirymu yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell y Trallwng, Y Lanfa, The Canal Wharf, y Trallwng, Powys, SY21 7AQ. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1560197.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau gan nodi ar ba sail y'u gwneir a chan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1560197 drwy e-bost at Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu yn ysgrifenedig at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod erbyn 9 Rhagfyr 2022.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael ei anfon ymlaen at

THE A458 TRUNK ROAD (TREWERN, POWYS) (40 MPH & 50 MPH SPEED LIMITS) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), 84(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a 40 mph and 50 mph speed limit on the lengths of the A458 trunk road ("the trunk road") specified in the Schedules to this Notice.

The A458 Trunk Road (Trewern, Powys) (40 mph Speed Limit) Order 2001 (S.I. 2001/3242 (W. 271)) ("the 2001 Order") and the A458 Trunk Road (Buttington to Cefn Bridge, Powys) (50 mph Speed Limit) Order 2017 (S.I. 2017/1126 (W. 283)) ("the 2017 Order") will be revoked by the proposed Order.

The proposed Order will modify the extent to which the 40 mph and 50 mph speed limits applied to the lengths of the trunk road by virtue of the 2001 and 2017 Orders.

During a period of 21 days from 18 November 2022 a copy of the proposed Order, the Statement of Reasons for making the Order, Plan and the Orders being revoked may be inspected, free of charge, at Welshpool Library, Y Lanfa/The Wharf, The Canal Wharf, Welshpool, Powys, SY21 7AQ. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge from Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1560197.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1560197, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch at the address below by 9 December 2022.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for personal data to be forwarded to third parties, you should state this

drydydd parti, dylech nodi hynny pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu ac os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y Plan a'r Datganiad o'r Rhesymau ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd a/neu gellir eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1560197.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd yn Nhrewern, Powys sy'n ymestyn o bwynt 555 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2248 Sale Lane hyd at bwynt 289 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â rhan orllewinol yr U2245 Garreg Bank.

ATODLEN 2
Terfyn cyflymder 50 mya

Y darn o'r gefnffordd yn Nhrewern, Powys sy'n ymestyn o bwynt 40 metr i'r dwyrain o ochr ddwyreiniol Cylchfan Tal-y-bont hyd at bwynt 555 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2248 Sale Lane.

when submitting your correspondence. The Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of this Notice, the Order, Plan and Statement of Reasons can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders and/or obtained in larger print free of charge by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1560197.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1
40 mph speed limit

The length of the trunk road at Trewern, Powys that extends from a point 555 metres west of the centre-point of its junction with the U2248 Sale Lane to a point 289 metres north-east of the centre-point of its junction with the western leg of the U2245 Garreg Bank.

SCHEDULE 2
50 mph speed limit

The length of the trunk road at Trewern, Powys that extends from a point 40 metres east of the eastern side of Buttington Cross Roundabout to a point 555 metres west of the centre-point of its junction with the U2248 Sale Lane.